OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 726 (Cy. 163)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 3.45 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 6.00 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

### Diwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer "Serbia".

### Personau sy'n gadael Serbia ar 10 Gorffennaf 2020

**3.**—(1) At ddibenion rheoliad 7(1)(b) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, nid yw person sy'n cyrraedd Cymru wedi i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w drin fel pe bai wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt yn ystod y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r person yn cyrraedd Cymru os—

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160).

(a) yw’r person yn gadael Serbia ar 10 Gorffennaf 2020, a

(b) nad yw wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth arall nad yw’n esempt yn ystod y cyfnod hwnnw o 14 o ddiwrnodau.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i “gwlad neu diriogaeth nad yw’n esempt” yr un ystyr ag yn rheoliad 9(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

*Mark Drakeford*
Am 3.45 p.m. ar 10 Gorffennaf 2020 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Mae'r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y rheoliadau diwygio"). Yn rhinwedd y diwygiadau hynny, nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (fel y'i mewnosodwyd gan y rheoliadau diwygio). Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i hepgor Serbia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.